Planhigion Gardd i Wenyn

Diwedd Y Gaeaf – Gwanwyn

Mae adegau blodeuo'n gwahaniaethu o ardal i ardal, sy'n effeithio ar borthiant, yn ogystal â dosbarthiad gwahanol rywogaethau gwenyn. Gallai rhai haenau o wenyn mêl gael eu hatal rhag chwilota mewn tywydd oeraidd iawn. Fodd bynnag, gellir gweld cacwn yn chwilota ar ddiwrnodau oerach a chânt eu gweld yn chwilota'n fwyfwy yn ystod y gaeaf, gan olygu bod planhigion sy'n blodeuo'n hwyr ac yn gynnar iawn yn hollbwysig.

Pren melyn * Clychau'r gog * Corn hela
Briallu Mair Sawrus * Crocysau * Daffodil * Deubig
Rhyfwydden Flodeuog * Eithin (Genista) * Eithin (Gorse)
Llysiau'r gerwyn * Mahonia * Briallu
Eirlysiau (amrywiaethau un blodyn)
Llysiau'r ysgyfaint * Rhosmari
Britheg * Grugoedd y Gaeaf
Gwyddfid y Gaeaf

Gwanwyn - Haf

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, mae pob math o wenyn yn magu eu deoreidiau. Gallai nythfa wenyn mêl nodweddiadol gynnwys oddeutu 50,000 i 60,000 o weithwyr, yn ogystal â larfâu i fwydo. Cesglir bwyd er mwyn eu storio mewn celloedd ŵy i fwydo larfâu newydd eu datblygu. Mae planhigion cyfeillgar i wenyn yn hollbwysig i sicrhau goroesiad y nythfa

Garlleg * Llysiau'r neidr * Tafod yr ych * Corn hela
Clychlys* Cennin syfi * Troed y golomen * Cyfardwf Mynawyd y bugail * Crocysau * Blodyn glas
Bysedd y cŵn * Pedwar-ban-byd * Gwyddfid
Milfyw * Bysedd y blaidd * Clychau dulas
Llysiau poen * Pentstemon * Pabi * Rhosyn crych
Gwerddonell * Celyn y môr * Pys pêr * Teim

Haf – Hydref

Yn ystod diwedd yr haf ac yn yr hydref, mae'r planhigion hyn yn parhau i fwydo deoreidiau hwyr eu datblygiad a'r gwenyn hynny sydd eisoes wedi datblygu'n oedolion sy'n gweithio. Sylwch fod y Ffromlys Chwarennog yn blanhigyn dadleuol yn y DU, lle nad yw'n frodorol, ond mae peillwyr wrth eu bodd ag ef am y neithdar digonol mae'n ei ddarparu.

Bergamot * Clustiau eliffant * Corn hela
Penlas yr ŷd * Eurwialwydd * Hylif elebwr
Ffromlys chwarenno * Hocys * Lafant * Berwr y dŵr
Mintys y gath * Procer coch * Gwerddonell * Clafrllys Ffaselia * Bywlys * Trwyn llo * Blodyn haul * Pannog
Feronica * Mintys y dŵr

Hydref – Gaeaf

Mae rhai'n casáu eiddew, ond dyma un o'r ychydig blanhigion i wenyn sy'n cynorthwyo goroesiad chwilotwyr hwyr. Mae peillio eiddew'n galluogi i aeron ddatblygu, sy'n bwydo nifer o adar dros fisoedd y gaeaf, yn ogystal â darparu cysgod gwych. Mae'r ymchwil wedi dangos bod coed a chanddynt eiddew'n tyfu i fyny arnynt yn darparu mwy o fywyd gwyllt na'r rhai hebddynt. Gall y rhan fwyaf o goed iach wrthsefyll o leiaf rhywfaint o dyfiant eiddew cyn iddo gael ei dorri'n ôl. Bydd bywyd gwyllt yn ei werthfawrogi!

Grug * Eiddew * Mintys * Oregano * Gwifwrnwydd

Felly pam na ddewch chi'n wenynwr?

Mae cadw gwenyn yn llwyddiannus yn dibynnu ar gaffael y sgiliau a'r wybodaeth i drafod gwenyn yn ddiogel ac yn effeithiol. Cysylltwch â'ch cymdeithas gwenynwyr lleol i gael manylion diwrnodau rhagarweiniol a chyrsiau i ddechreuwyr – gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer Cymru yn www.wbka.com ac i Loegr yn www.bbka.org.uk.

Cymdeithas Gwenynwyr Llambed a'r Cylch
lampeterbeekeepersassociation.co.uk/cy

gyda diolch i
Gwenynwyr
Pen-y-Bont
BRIDGEND BEEKEEPERS
GWENYNWYR PEN-Y-BONT